# ROBERTS, ROBERT (SILYN) ('Rhosyr'; 1871 - 1930), bardd, pregethwr, diwygiwr cymdeithasol, ac athro

**Enw:** Robert (Silyn) Roberts
**Ffugenw:** Rhosyr
**Dyddiad geni:** 1871
**Dyddiad marw:** 1930
**Priod:** Mary Roberts (née Parry)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd, pregethwr, diwygiwr cymdeithasol, ac athro
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg; Eisteddfod; Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** David Thomas

Ganwyd yn Bryn Llidiart, Llanllyfni, 28 Mawrth 1871. Bu'n chwarelwr, yna yng Nghlynnog, yng Ngholeg y Gogledd (B.A. 1899, M.A. 1901), a'r Bala. Daeth yn weinidog eglwys Methodistiaid Calfinaidd Lewisham, 1901-5, a Thanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, 1905-12. Enillodd y goron yn eisteddfod genedlaethol 1902 am bryddest, ' Trystan ac Esyllt.' Yn 1900 cyhoeddodd ef a W. J. Gruffydd *Telynegion*, a nododd gychwyn cyfnod telynegol newydd mewn barddoniaeth Gymraeg. Cyhoeddodd *Trystan ac Esyllt a Chaniadau Eraill* yn 1904. Cyhoeddodd fwy o ganiadau wedi hyn, rai ohonynt o dan y ffugenw ' Rhosyr,' ond nis casglwyd ynghyd ag eithrio detholiad coffa bychan, *Cofarwydd*, 1930. Cyhoeddodd bamffled, *Y Blaid Lafur Anibynnol, ei Hanes a'i Hamcan*, 1908, ac etholwyd ef yn aelod Llafur ar gyngor sir Feirionnydd. Darlithiodd yn U.D.A. a Canada dros y mudiad yn erbyn y darfodedigaeth. Yn 1912 penodwyd ef yn ysgrifennydd cyntaf Bwrdd Penodiadau Prifysgol Cymru, a phan ddaeth y rhyfel yn 1914 ymdrechodd yn galed yn ei swydd i gael penodi swyddogion o Gymry yn y lluoedd arfog. Bu'n swyddog dros Gymru o dan y Llywodraeth, 1918-22, i drefnu hyfforddiant i filwyr clwyfedig. O 1922 ymlaen bu'n ddarlithydd dosbarthiadau allanol Coleg Bangor, ac yn 1925 sefydlodd adran Gogledd Cymru o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr. Teithiodd lawer ar y Cyfandir ac yn America. Ysgrifennodd yn helaeth i'r *Glorian*, *Y Dinesydd Cymreig*, *Welsh Outlook*, etc. Ef oedd awdur *Gwyntoedd Croesion*, 1924 (cyfieithiad o ddrama J. O. Francis, *Cross Currents*); *Bugail Geifr Lorraine*, 1925 (cyfieithiad o nofel Ffrangeg); ac yn 1945, cyhoeddwyd *Llio Plas y Nos*. Bu farw 15 Awst 1930 ym Mangor. Priododd, 1905, â Mary Parry, Llundain; cawsant ddau fab a merch.

## Awdur

**David Thomas**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


*Y Traethodydd*, Ebrill 1942

*The Liverpool Daily Post*, 18 Awst 1930

*Y Goleuad*, 8 a 17 Medi 1930

*Cambria*, Gaeaf 1930

*Papur Pawb*, 2 Ebrill 1904

*Yr Ymwelydd Misol* (Wrecsam 1903-14), Awst 1912

a'i weithiau ei hun


## Darllen Pellach

David Thomas, *Silyn (Robert Silyn Roberts) 1871-1930)* (Lerpwl 1956)

Erthygl Wicipedia: Robert Roberts

## Gweithiau

R. Silyn Roberts, Y Blaid Lafur Anibynnol. Ei hanes a'i hamcan.

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 31784432

Wikidata: Q7517201

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu